

Dull PESS o Addysgu Dawns - Cyfnod Allweddol 2

Gwers 6

Canlyniadau Gwers 6

- Creu a pherfformio dawns mewn parau sy’n arddangos unffurfiaeth ac amrywiaeth o weithrediadau dawns
- Disgrifio’r hyn y maent wedi’i gynnwys yn eu dawns gan ddefnyddio geiriau allweddol
- Cynnal gweithgaredd dros gyfnod hwy

Adolygu

Crynowch yr holl gymalau dawns y mae’r disgyblion wedi’u dysgu hyd yn hyn: y cymal ar y pwnc ‘Mynd i’r parti’, y cymal ar y pwnc ‘Pasio’r parcel’, y cymal ar y pwnc ‘Cerfluniau cerddorol’ a’r cymal ar y pwnc ‘Hoci-coci’.

Defnyddiwch eiriau allweddol i helpu’r disgyblion i gofio pob cymal a nawws/nodweddion pob cymal.

Archwilio

Ystyriwch uno’r cymalau fel eu bod yn cysylltu ♦ i gilydd yn esmwyth. Rhowch gynnig ar roi’r cymalau ar gyfer y g♦mau mewn trefn wahanol.

Creu

Lluniwch ddawns ar gyfer p♦r ar y pwnc ‘Parti Pen-blwydd’ trwy ddefnyddio ciwb symudiadau i benderfynu ym mha drefn y dylai’r disgyblion ddawnsio’r cymalau sy’n ymdrin ♦’r g♦mau parti. Fel arall, gallai’r disgyblion benderfynu ym mha drefn y maent am berfformio’r cymalau. Rhowch amser i’r disgyblion ymarfer fel bod pob rhan yn llifo’n esmwyth i’w gilydd. Parhewch i atgoffa’r disgyblion o’r geiriau allweddol sy’n gysylltiedig ♦ phob rhan o’r ddawns. Dylai’r disgyblion arddangos unffurfiaeth yn eu dawns.

Ymyrryd

Trafodwch y cysyniad o unffurfiaeth ♦ beth y mae’n ei olygu? Tynnwch sylw at ddisgyblion sy’n symud ag unffurfiaeth effeithiol. Beth y maent yn ei wneud i symud ag unffurfiaeth effeithiol? Tynnwch sylw at ddisgyblion sydd wedi cysylltu’r cymalau’n esmwyth. Gofynnwch i’r disgyblion ddisgrifio’r hyn y maent yn ei weld ac yn ei wneud gan ddefnyddio geiriau allweddol. Gofynnwch iddynt beth sy’n digwydd i’w cyrff wrth iddynt ddawnsio am gyfnod hwy. Beth y mae angen iddynt ei wneud i allu parhau i ddawnsio am gyfnod hwy? Beth allai ddigwydd ar ddiwedd y ddawns? Efallai y byddant yn gwneud camgymeriad, yn colli amseriad, yn colli unffurfiaeth ac ati ♦ sut y gallant atal hyn rhag digwydd?

Perfformio

Mae pob p♦r yn perfformio o flaen p♦r arall.

Gwerthuso

Mae’r disgyblion yn gwerthuso’u hunain gan ddefnyddio taflen werthuso 3.